# Cais am Stondin neu Weithgaredd Allestyn yng Ngŵyl Fwyd Sain Ffagan 2025

**Diolch am eich diddordeb yn ein digwyddiad. Sicrhewch eich bod wedi darllen y wybodaeth isod a thelerau ac amodau'r digwyddiad, yna dywedwch fwy wrthym am eich cynnig trwy lenwi'r ffurflen hon:**

**https://forms.gle/VAkxXgBeK6d71JW88**

## Y digwyddiad

Mae Gŵyl Fwyd Sain Ffagan yn ddigwyddiad blynyddol a gynhelir yn nhiroedd Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yng Nghaerdydd. Wedi'i sefydlu yn 2010, mae'r ŵyl yn cynnig mynediad am ddim ac mae bellach yn un o hoff ddigwyddiadau ein hymwelwyr, gan ddenu 24,000 o ymwelwyr ar gyfartaledd dros benwythnos y digwyddiad.

Yn ogystal â mwynhau gwledd o weithgareddau, dangosiadau, cerddoriaeth fyw ac adloniant i'r teulu cyfan, gall ymwelwyr i Ŵyl Fwyd Sain Ffagan flasu a phrynu cynnyrch o dros 70 o stondinau bwyd, diod a chrefft Cymreig sy'n swatio yng nghanol adeiladau hanesyddol yr Amgueddfa.

**Dyddiadau'r Digwyddiad: 13 & 14 Medi 2025**
**Oriau Agor: 10am-6pm**

## Prif flaenoriaethau

1. Sicrhau fod pawb yn cael eu cynrychioli – gan ganolbwyntio ar ymgysylltu â chymunedau nad ydynt yn draddodiadol yn mynychu'r digwyddiad/Amgueddfa hon
2. Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes – themâu gan gynnwys treftadaeth a thraddodiadau bwyd, newid hinsawdd, iechyd a lles
3. Helpu i ddiogelu ac adfer natur a'r amgylchedd
4. Arddangos bwyd a diod lleol o Gymru
5. Hyrwyddo Cymru a'r Gymraeg drwy ein holl weithgareddau

## Prif ddemograffeg y digwyddiad

- Teuluoedd, cyplau a grwpiau o ffrindiau
- Cynulleidfa leol

**Nodwch os gwelwch yn dda:**

- Bydd angen i arddangoswyr ddod â'u stondin eu hunain e.e. gazebo, pabell, yurt – mae'r prisiau a restrir isod ar gyfer llogi gofod o fewn safle'r ŵyl ac nid ydynt yn cynnwys stondin na dodrefn.
- Mae pŵer ar gael am dâl ychwanegol, cysylltwch â threfnwyr y digwyddiad i drafod eich gofynion.
- Ni chaniateir unrhyw weithgareddau codi arian e.e. casglu aelodaeth, cofrestru debyd uniongyrchol, raffl, pwyntiau cyfrannu. Trafodwch unrhyw gynlluniau i werthu eitemau a/neu wasanaethau gyda threfnwyr y digwyddiad neu nodwch y manylion yn eich cais.
- Ni chaniateir ymgymryd ag unrhyw weithgareddau o natur wleidyddol yn y digwyddiad hwn, nac unrhyw weithgareddau eraill a fydd yn dwyn anfri ar yr Amgueddfa, y digwyddiad neu'ch hun yn fwriadol mewn unrhyw ffordd.
- Lle bo modd, dylai'r gweithgareddau fod yn rhai galw heibio ac wedi'u darparu am ddim i ymwelwyr â'r digwyddiad.
- Rhaid i bob deunydd arddangos fod yn ddwyieithog yn unol â Pholisi Iaith yr Amgueddfa. Lle bo modd, dylai eich rhaglen o weithgareddau fod yn ddwyieithog.
- Yn unol â nodau cynaliadwyedd y digwyddiad, byddwch yn ystyriol o'r deunyddiau a ddefnyddir yn eich gweithgaredd. Nid ydym yn annog dosbarthu nwyddau am ddim (e.e. beiros, cylchoedd allweddi, sticeri), ac ni chaniateir defnyddio plastig untro. Dylai unrhyw eitemau sy'n cael eu dosbarthu i ymwelwyr â'r digwyddiad fod wedi'u caffael yn gynaliadwy, yn gyfeillgar i'r amgylchedd ac yn ailddefnyddiadwy.
- Bydd yn ofynnol i bob arddangoswr a hwylusydd ddarparu copi dwyieithog a llun safon uchel addas ar gyfer gwefan a map yr ŵyl. Os derbynnir y wybodaeth hon yn brydlon, gallwn gefnogi gyda chyfieithu.
- Bydd yn ofynnol i bob arddangoswr a hwylusydd ddarparu copïau o'u gwaith papur Iechyd a Diogelwch cyn y digwyddiad – mae hyn yn cynnwys Asesiad Risg, Datganiad Dull, Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus, Tystysgrifau PAT a Sgôr Hylendid Bwyd (os yn darparu bwyd i'r cyhoedd).
- Bydd Pecyn Stondinwyr yn cael ei rannu gyda chi 1 mis cyn y digwyddiad, a fydd yn cynnwys mwy o fanylion am y digwyddiad a threfniadau'r safle. Bydd stondinwyr allestyn yn gallu cael mynediad i'r safle rhwng 4.30-8pm ar y nos Wener a 7-9.30am bore Sadwrn er mwyn gosod.

## Prisiau Stondinau

| Gwagle Sydd Ei Angen | Pris |
|---|---|
| Hyd at 6m x 6m | £80 un diwrnod / £120 dau ddiwrnod |
| Hyd at 12m x 12m | £150 un diwrnod / £225 dau ddiwrnod |
| Hyd at 24m x 24m | £300 un diwrnod / £450 dau ddiwrnod |
| *Rhoddir gostyngiad o 50% i elusennau cofrestredig* | |

www.amgueddfa.cymru/gwylfwyd